

Cyngor Cymuned Llanycil.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Mehefin 11eg 2013 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Jean Roberts (Cadeiryddes), Geraint Jones, Geraint Davies, Gwynedd Jones, Rhys Richards, Gwynfryn Williams, Gwilym Davies, Cyng. Elwyn Edwards a'r cler.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Arwel Davies ac Euros Puw.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

Materion vn codi o'r cyfarfod diwethaf.

Ymateb i'r cwynion a anfonwyd i Gyngor Gwynedd:-

Pont Tai Hirion, Arenig.

Cafwyd cadarnhad bod yr wybodaeth wedi cael ei drosglwyddo i Beiriannydd Strwythur Gwasanaeth Ymgynghoriaeth y Cyngor gyda chais eu bod yn asesu'r safle.

Coed di disgyn rhwng Beudy Rhyd yr Efail a Penbryncoch, Parc.

Roedd y safle wedi cael ei asesu ac roedd y coed wedi cael eu clirio.

Mynediad Ysgol Y Parc.

Roedd trefniadau wedi ei gwneud i lenwi'r twll yn y ffordd.

Gwifrau ffon rhwng croesffordd y Bragdy a Thŷ Capel Moelgarnedd, Y Parc.

Roedd y cler wedi ceisio hysbysu BT ac yna Open Reach am y mater ond bu rhaid cysylltu â Chyngor Gwynedd yn y diwedd. Nid oedd ymateb pellach wedi ei dderbyn hyd yn hyn.

Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Partneriaeth Penllyn

- i) Copïau o gofnodion y cyfarfodydd diwethaf, 8/4/13 a 21/5/13.
- ii) Copi o'r cytundeb rhwng Cyngor Gwynedd a Phartneriaeth Penllyn a'r Cynghorau Cymuned a Thref.
- iii) Derbyniwd cais gan swyddogion y Bartneriaeth/Pum Plwy Penllyn i ymweld â'r Cyngor. Cytunwyd i'w gwahodd i'r cyfarfod ym mis Medi.

iv) Derbyniwyd cais gan y Bartneriaeth i gytuno mewn egwyddor i roi cyfraniad ariannol ychwanegol i gynllun yr Henblas. Trafodwyd y cais a chytunwyd i ofyn am ragor o wybodaeth am y math o daliad a ddisgwyliet ac am gopi o gynllun busnes yr Henblas cyn gwneud unrhyw benderfyniad.

b) Cyngor Gwynedd

- i) Rhaglen waith yr Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol ar gyfer mis Mehefin.

c) Un Llais Cymru

- i) Llythyr yn diolch i'r Cyngor am ail ymaelodi a ffurflen i anfon manylion cynrychiolwyr y Cyngor ar Bwyllgorau Ardal Meirionnydd. Cytunwyd i beidio enwebu person penodol ond anfon cynrychiolydd os oedd angen pan fyddai'r Cyngor yn derbyn manylion y cyfarfodydd.
- iii) Llythyr yn ein hysbysu bod Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynnyddol 2013 yn cael ei gynnal yn Llanelwedd, 5/10/13.

ch) Amrywiol

i) CAB - Derbyniwyd e-bost yn ein cyngori y bydd uned symudol newydd ar gael i ymweld ag ardaloedd gwledig Gwynedd dros y misoedd nesaf. Cytunwyd i basio'r wybodaeth ymlaen i'r Bartneriaeth gan eu bod wedi gwahodd CAB i ymweld â'r ardal yn y gorffennol.

ii) Parc Cenedlaethol Eryri – Gwahoddiad i ddiwrnod agored ar y 11/6/13.

iii) Heddlu Gogledd Cymru - Gwybodaeth am eu hymgyrchon diweddaraf.

Ceisiadau Cynllunio.

Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:-

NP5/72/T226– Adeiladu estyniad. Gwerndyfrgi, Rhyduchaf.

NP5/72/LB143B - Cynlluniau diwygiedig. Eglwys Beuno Sant, Llanycil.

Cytunwyd i gefnogi'r ceisiadau.

Materion Ariannol.

Ffurflen Archwiliad Blynyddol.

Adroddodd y clerc bod y cyfrifon a'r ffurflen wedi cael ei archwilio gan yr archwilydd mewnol.

Cytunwyd yn unol â gofynion y datganiad sicrwydd yn y ffurflen Archwiliad Blynyddol. Adroddodd y clerc y byddai'n anfon copi o'r ffurflen i'r archwilwyr mewnol, UHY Hacker Young. Derbyniwyd hefyd restr o'r ffioedd archwilio ar gyfer y Ffurflenni Blynyddol 2012/13.

Cytunwyd i dalu anfoneb Partneriaeth Penllyn (cyfraniad at y costau gweinyddol).

Unrhyw Fater Arall

Gwter ger Fedw Arian Isaf, Bala.

Gofynnwyd i'r clerc holi Cyngor Gwynedd pryd y byddai'r gwter yn cael ei drwsio gan fod y dŵr yn gorlifo i'r cae gerllaw.